# Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol – Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw adolygiad sicrwydd ansawdd allanol?**
Mae adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yn ymarfer sicrwydd ansawdd a gynhelir gan sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru (neu'r rhai sydd eisiau cael eu rheoleiddio) fel rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd (QAF).

**Beth fydd adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yn ceisio'i wneud?**
Bydd adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yn gwerthuso a yw dulliau gweithredu sefydliad o ran sicrwydd ansawdd mewnol yn bodloni gofynion y Safonau a'r Canllawiau Ewropeaidd, ac a yw sefydliad yn bodloni gofynion y sylfaen yn y Fframwaith Asesu Ansawdd. Hefyd bydd yr adolygiad yn gwerthuso dull strategol y sefydliad o wella ansawdd. Rhaid i sefydliadau sydd eisiau bod neu barhau i fod yn sefydliadau a reoleiddir fod wedi cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd allanol (neu Adolygiad Addysg Uwch: Cymru cyfatebol, neu broses Adolygu Sicrwydd Ansawdd arall) yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Yn sail i adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol mae prosesau sicrwydd ansawdd blynyddol a phob tair blynedd CCAUC.

**Pa mor aml ddylai adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol gael eu cynnal?**
Dylid cynnal adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol bob chwe blynedd o leiaf; gellir cynnal adolygiadau'n amlach os yw'r corff rheoli'n dymuno hynny neu os yw'n ofynnol gan CCAUC o dan unrhyw amgylchiadau, er enghraifft, os yw sefydliad wedi wynebu newid strwythurol sylweddol neu os oes newidiadau sylweddol i ddarpariaeth sefydliad neu niferoedd myfyrwyr.

**Pwy fydd yn cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd allanol?**
Dim ond corff ar Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewrop (EQAR) ar gyfer Addysg Uwch sy'n cael cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd allanol. Rhaid i'r corff a benodir ddeall cyd-destun Cymru yn y DU â bod â gallu priodol yn y Gymraeg.

**Sut bydd y myfyrwyr yn chwarae eu rhan?**
Mae cael y myfyrwyr i chwarae eu rhan yn y broses yn allweddol oherwydd mae partneriaeth rhwng sefydliadau a'u myfyrwyr yn flaenoriaeth yng Nghymru. Rhaid i'r tîm adolygu gynnwys cynrychiolydd ar ran y myfyrwyr. Os yw undeb myfyrwyr yn llunio adroddiadau ansawdd blynyddol ar ran y corff o fyfyrwyr, dylai'r tîm ystyried y rhain fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Dylai'r sefydliad ddarparu cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant ar gyfer y corff o fyfyrwyr, fel sy'n briodol i alluogi eu cyfranogiad effeithiol yn yr adolygiad.